Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rheoli perfformiad i benaethiaid

Trefniadau rheoli perfformiad diwygiedig 2012

www.cymru.gov.uk



## Canllawiau

Dogfen ganllawiau rhif: 074/2012
Dyddiad cyhoeddi: Mai 2012

# Rheoli perfformiad i benaethiaid

**Cynulleidfa** Awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, sefydliadau o fewn y sector addysg bellach, penaethiaid ysgolion a gynhelir ac eraill sydd â diddordeb.

**Trosolwg** Mae'r ddogfen ganllaw hon yn rhoi amlinelliad o Reoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011 a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2012 er mwyn cryfhau trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer penaethiaid, athrawon ac athrawon digyswllt.

**Camau i'w cymryd** Mae'n rhaid i bob ysgol fabwysiadu'r trefniadau rheoli perfformiad diwygiedig erbyn 31 Rhagfyr 2012.

**Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:
Is-adran Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: PracticeReviewandDevelopment@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol** Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

**Dogfennau cysylltiedig** Mae'n bosib parhau i ddefnyddio'r canllawiau a'r gweithdrefnau rheoli perfformiad presennol sy'n ymwneud â rheoliadau 2002 hyd nes y bydd pob ysgol wedi mabwysiadu'r trefniadau diwygiedig erbyn 31 Rhagfyr 2012 fan bellaf. Gellir gweld y canllawiau a'r gweithdrefnau hynny trwy'r ddolen ganlynol: www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/performance-man-for-teachers?lang=cy

Y rheoliadau newydd a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2012 yw Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011 Rhif 2940 (W.316) a gellir eu gweld drwy ddefnyddio'r ddolen ganlynol: www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2940/contents/made/welsh

ISBN digidol 978 0 7504 7435 1
© Hawlfraint y Goron 2012
WG15516

# Cynnwys


| | Rhif Tudalen |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Polisi rheoli perfformiad ysgolion | 3 |
| Penodi gwerthuswr | 4 |
| Y cylch gwerthuso | 6 |
| Cynllunio cychwynnol, pennu amcanion a gweithdrefnau monitro | 7 |
| Yr adolygiad gwerthuso a’r datganiad gwerthuso | 12 |
| Apelau | 15 |
| Darparu datganiadau gwerthuso, eu defnyddio a’u cadw | 17 |
| Materion perthnasol eraill | 19 |

# Cyflwyniad

Mae rheoli perfformiad yn helpu ysgolion i wella drwy gefnogi a gwella gwaith penaethiaid fel unigolion ac fel arweinwyr timau ysgol. Mae'n gosod fframwaith i athrawon ac arweinwyr gytuno ar flaenoriaethau ac amcanion a'u hadolygu yng nghyd-destun cynlluniau gwella'r ysgol. Mae'n canolbwyntio sylw ar wneud addysgu ac arwain yn fwy effeithiol er budd disgyblion, athrawon ac ysgolion.

Cynlluniwyd yr arweiniad hwn i fod yn gefnogol, nid gorfodol. Mae'n ymwneud â'r gofynion a nodir yn Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011 a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r rheoliadau.

Mae'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer gwerthuso perfformiad penaethiaid mewn ysgolion cymunedol, gwirfoddol, sefydledig, arbennig cymunedol, sefydledig arbennig neu ysgolion meithrin a gynhelir. Nid yw'r gwerthusiad rheoli perfformiad yn rhan o unrhyw weithdrefnau disgyblu neu ddiswyddo.

### Safonau Proffesiynol ar gyfer Ymarferwyr Addysg yng Nghymru

Mae'n rhaid i benaethiaid ddangos eu bod yn cyrraedd y Safonau Arweinyddiaeth fel rhan o drefniadau asesu ar gyfer y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol Gorfodol ar gyfer Prifathrawiaeth a'u bod yn parhau i'w cyrraedd wrth weithio fel pennaeth. Maent yn darparu fframwaith i alluogi i benaethiaid nodi eu hamcanion rheoli perfformiad a dewis y gweithgareddau datblygiad proffesiynol mwyaf priodol. Os nad yw pennaeth yn parhau i gyrraedd y safonau hyn, dylai'r Corff Llywodraethu ystyried gweithdrefnau cymhwysedd neu allu. Os penderfynir ymgymryd â gweithdrefn cymhwysedd neu allu, yna mae'r weithdrefn honno yn disodli trefniadau rheoli perfformiad.

Mae'r Safonau Arweinyddiaeth ar gael yn:
www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/circulars/practitioners/?skip=1&lang=cy.

### Cynnwys yr arweiniad

Mae'r arweiniad hwn wedi'i rannu yn wyth adran:

### 1. Polisi rheoli perfformiad ysgolion

Y Polisi Rheoli Perfformiad Ysgolion yw'r polisi ysgrifenedig sy'n nodi sut y gweithredir y broses o reoli perfformiad yn yr ysgol.

### 2. Penodi gwerthuswyr

Bydd panel gwerthuso yn cynnwys o leiaf 2 lywodraethwr a benodir gan y Corff Llywodraethu a 2 werthuswr a benodir gan yr awdurdod lleol.

## 3. Y cylch gwerthuso

Bydd y Corff Llywodraethu yn pennu amserlen y cylch gwerthuso ar gyfer pennaeth yr ysgol.

## 4. Cynllunio cychwynnol, pennu amcanion a gweithdrefnau monitro

Mae Rheoli Perfformiad yn broses barhaus gydol y flwyddyn. Mae'n gylch parhaus sy'n cynnwys tri chyfnod sef, cynllunio, monitro perfformiad ac adolygu perfformiad.

## 5. Yr adolygiad gwerthuso a'r datganiad gwerthuso

Mae'r adolygiad blynyddol o berfformiad yn gyfle ffurfiol i'r pennaeth a'r panel gwerthuso gydnabod cyflawniadau a thrafod meysydd i'w gwella, cymorth a datblygiad proffesiynol.

## 6. Apelau

Os na ellir datrys problemau gyda'r panel gwerthuso, mae gan y pennaeth gyfle i apelio yn erbyn y datganiad gwerthuso.

## 7. Darparu datganiadau gwerthuso, eu defnyddio a'u cadw

Gofynion datgelu, cadw a defnyddio datganiadau gwerthuso.

## 8. Materion perthnasol eraill

Rheoli perfformiad gwan; a chyflog a pherfformiad.

## Nodiadau

Mae'r cyfeiriadau at Bennaeth yn cynnwys Pennaeth Dros Dro.

Lle cyflogir pennaeth gan ddwy ysgol neu fwy, mae'n rhaid gwerthuso perfformiad ym mhob ysgol. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, disgwylir i gyrff llywodraethu gydweithio o ran amserlenni ac ati a, lle bo'n bosibl, dylent gydweithio i leihau'r baich gymaint â phosibl.

## Polisi rheoli perfformiad ysgolion

Y Polisi Rheoli Perfformiad Ysgolion yw'r polisi ysgrifenedig sy'n nodi sut bydd rheoli perfformiad yn cael ei weithredu yn yr ysgol yn unol â Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011. Mae'n rhaid i'r corff llywodraethu, yr awdurdod lleol a'r pennaeth lunio Polisi Rheoli Perfformiad yr Ysgol. Os na ellir cytuno ar y polisi, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol bennu Polisi Rheoli Perfformiad yr Ysgol.

Mae'n rhaid i'r polisi ysgrifenedig nodi sut y gweithredir y broses o reoli perfformiad yn yr ysgol. Wrth lunio'r polisi, mae'n rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau yr ymgynghorir â'r holl athrawon yn yr ysgol a bod rôl undebau llafur cydnabyddedig yr athrawon yn cael ei pharchu'n llawn yn y broses. Bydd y corff llywodraethu'n gwneud copi o'r polisi sydd ar gael i'w archwilio yn yr ysgol ar unrhyw adeg resymol gan athrawon a gyflogir yn yr ysgol, unrhyw unigolyn sy'n ymwneud ag archwilio'r broses o reoli perfformiad ac unrhyw werthuswyr a benodir yn unol â'r Rheoliadau Gwerthuso.

Dylai'r polisi sefydlu fframwaith sy'n galluogi'r holl staff i gytuno ac adolygu blaenoriaethau ac amcanion o fewn cyd-destun cynllun datblygu'r ysgol a'u hanghenion datblygu proffesiynol eu hunain. Bydd yn gymorth yn y gwaith o ddatblygu'r holl staff ac yn helpu i godi safonau cyflawniadau disgyblion lle bo'n briodol.

Dylid adolygu Polisi Rheoli Perfformiad Ysgolion a'i ddiwygio yn ôl yr angen bob blwyddyn ysgol ar ôl ymgynghori.

Mae'n rhaid i'r pennaeth lunio adroddiad ysgrifenedig i'r corff llywodraethu o leiaf unwaith bob blwyddyn ysgol ar weithredu'r Polisi Rheoli Perfformiad Ysgolion o dan y Rheoliadau hyn, ar effeithiolrwydd gweithdrefnau gwerthuso'r ysgol, ac ar anghenion hyfforddiant a datblygu'r athrawon a'r pennaeth.

## Penodi gwerthuswr

Bydd penaethiaid yn cael eu gwerthuso gan banel sy'n cynnwys:

- o leiaf ddau lywodraethwr, a benodir gan y corff llywodraethu;
- un neu ddau werthuswr a benodir gan yr awdurdod lleol; a
- hefyd, os mai pennaeth ysgol sydd â chymeriad crefyddol sy'n cael ei werthuso, gall yr Awdurdod Esgobaethol benodi gwerthuswr.

Mae'n bwysig iawn bod y corff llywodraethu yn dewis y llywodraethwyr sydd â'r cymwysterau gorau i helpu i gynnal gwerthusiad y pennaeth ac sydd â'r gallu, lle bo angen, i ddarparu cefnogaeth addas yn ystod y cylch blynyddol. Mae'n rhaid i hyn gynnwys o leiaf un gwerthuswr sy'n llywodraethwr sylfaen o'r ysgol os yw'n ysgol o gymeriad crefyddol neu'n ysgol wirfoddol a gynorthwyir nad yw o gymeriad crefyddol. Hefyd, ni ellir penodi llywodraethwr fel gwerthuswr ar gyfer y pennaeth os yw'n athro neu'n aelod arall o staff yr ysgol.

Dylai'r corff llywodraethu ystyried priodweddau gwerthuswr da a pha lywodraethwyr sy'n cyfateb iddynt orau. Mae'r priodweddau y gall y corff llywodraethu eu hystyried yn cynnwys:

- sgiliau cyfathrebu da;
- sgiliau rhyngbersonol da;
- sgiliau caffael gwybodaeth a dadansoddi data da, gan gynnwys y gallu i ddeall, dehongli a dadansoddi dangosyddion perfformiad allweddol sy'n ymwneud â pherfformiad yr ysgol;
- perthynas waith dda â'r pennaeth, gan gynnwys ymddiriedaeth a pharch;
- dealltwriaeth dda o swydd y pennaeth;
- digon o amser i gyflawni rôl y gwerthuswr ac i wneud cyfiawnder â'r broses;
- yn gyfarwydd â chynllun hyfforddiant chyllideb gysylltiedig yr ysgol; ac
- yn gyfarwydd â gweithdrefnau rheoli perfformiad.

Wrth benderfynu ar nifer y llywodraethwyr a benodir fel gwerthuswyr, dylai'r corff llywodraethu ystyried y posibilrwydd o orfod penodi gwerthuswyr newydd neu lywodraethwyr addas ar gyfer y broses apêl a phrosesau cysylltiedig. Gan hynny, disgwylir penodi hyd at 4 gwerthuswr.

Gall y corff llywodraethu benodi gwerthuswr newydd yn lle unrhyw lywodraethwr cyfredol. Dylid hysbysu'r pennaeth yn ysgrifenedig o'r rheswm dros y cyfryw newid a dylid cynnwys y nodyn hwn gyda'r Datganiad Gwerthuso.

Gall y corff llywodraethu wneud cais ar unrhyw adeg i'r awdurdod lleol i benodi gwerthuswr newydd yn lle gwerthuswr cyfredol a benodwyd gan yr awdurdod lleol,

ond bydd y cyfryw benodiad yn ôl disgresiwn yr awdurdod lleol a bydd esboniad ysgrifenedig am y rhesymau yn cael ei gynnwys wrth wrthod gwerthuswr.

Fel rheol, bydd yr awdurdod lleol yn penodi dau werthuswr i'r panel. Wrth enwebu cynrychiolwyr i weithredu fel gwerthuswyr, dylai'r awdurdod lleol hefyd ystyried priodweddau gwerthuswr da. Yn ogystal â'r priodweddau a restrir uchod, byddai gan gynrychiolwyr yr awdurdod lleol hefyd wybodaeth am yr ysgol a/neu byddai'n gyfarwydd â'r ysgol, â rôl y pennaeth ac â blaenoriaethau perthnasol yr awdurdod lleol.

Dylid ymgynghori â'r pennaeth ynglŷn â phwy fydd yn cael ei benodi fel eu gwerthuswyr.

Yn olaf, os yw'r amser y mae pennaeth yn ei dreulio yn addysgu yn gyfran sylweddol o rôl pennaeth, yna dylid rhoi ystyriaeth benodol i gynnwys gwerthuswr â Statws Athro Cymwysedig (SAC).

## Y cylch gwerthuso

Mae'n rhaid i'r corff llywodraethu bennu amserlen y cylch gwerthuso ar gyfer pennaeth yr ysgol. Bydd cylch gwerthuso yn para blwyddyn fel arfer ac yn dechrau ar ôl 1 Medi a chyn 31 Rhagfyr, heb law bod yr awdurdod lleol a'r corff llywodraethu yn cytuno fel arall.

Mae'n rhaid i'r corff llywodraethu gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y cylch gwerthuso cyntaf ar gyfer pennaeth ysgol a oedd yn y swydd ar y dyddiad y daeth y Rheoliadau i rym yn dechrau ar 31 Rhagfyr 2012 fan bellaf.

Yn achos y cylch gwerthuso cyntaf a gynhelir o dan y Rheoliadau, ar gyfer pennaeth sy'n gyflogedig ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau i rym, gall y corff llywodraethu bennu bod y cylch gwerthuso hwnnw'n para am gyfnod gwahanol i flwyddyn cyn belled â bod y cyfnod hwn yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2012 ac yn gorffen erbyn 31 Rhagfyr 2012 fan bellaf. Yn yr un modd, yn dilyn penodi pennaeth newydd, gall y corff llywodraethu bennu bod hyd cylch gwerthuso cyntaf y pennaeth yn y swydd newydd yn llai na blwyddyn. Dylid rhoi sylw priodol i'r broses lle cynhelir cyfnod llai.

Ar ôl iddynt ddechrau, mae cylchoedd gwerthuso pob pennaeth yn barhaus. Ni fydd penodi gwerthuswr newydd yn golygu bod yn rhaid ail-ddechrau cylch gwerthuso'r pennaeth.

Dylai'r corff llywodraethu sicrhau bod yr amserlenni'n cyd-fynd â chylch cynllunio'r ysgol, gan gynnwys yr Adroddiad Hunanwerthuso, Cynllun Gwella'r Ysgol, band yr ysgol (lle'n briodol), argaeledd data perfformiad a gall hefyd ystyried y cylch cyflog blynyddol.

Dylai'r Cylch hefyd ystyried argaeledd adroddiad ysgrifenedig y pennaeth i'r Corff Llywodraethu ar weithredu polisi Rheoli Perfformiad yr Ysgol.

## Cynllunio cychwynnol, pennu amcanion a gweithdrefnau monitro

Wrth reoli perfformiad, mae’r gwerthuswyr a’r pennaeth yn gweithio gyda’i gilydd i sicrhau y trafodir ac y cytunir ar amcanion; ar y panel yn rhoi adborth rheolaidd a gwrthrychol i’r pennaeth; ar y panel yn sicrhau bod gan y pennaeth fynediad i hyfforddiant a datblygiad digonol lle bo’n briodol; ac ar adolygiad blynyddol ffurfiol o berfformiad.


Mae arferion gorau wrth reoli perfformiad yn cynnwys:

- ymrwymiad i gyraeddiadau a lles disgyblion;
- gwerthfawrogi rôl hanfodol pennaeth;
- ymrwymiad i berfformiad a lles staff;
- mae’n rhaid i’r pennaeth a’r gwerthuswyr ymddiried yn ei gilydd er mwyn sicrhau gwerthusiad cadarn o gryfderau a nodi meysydd i’w datblygu;
- annog rhannu arferion da; ac
- integreiddio rheoli perfformiad i’r dull cyffredinol o arwain a rheoli’r ysgol.

## Y broses o reoli perfformiad

### Y cylch rheoli perfformiad

Mae rheoli perfformiad yn broses barhaus a gyflawnir yn ystod y flwyddyn. Mae’n gylch parhaus sy’n cynnwys y tri chyfnod o gynllunio, monitro perfformiad ac adolygu perfformiad. Mae arferion gorau wrth reoli perfformiad yn cynnwys dull cydweithredol lle mae’r gwerthuswyr a’r pennaeth yn cymryd cyfrifoldeb ar y cyd i weithredu’r broses yn effeithiol.



## Cynllunio

Cyn y cyfarfod cynllunio, dylai'r pennaeth:

- ystyried defnyddio dulliau hunanddadansoddi a myfyrio i baratoi ar gyfer y drafodaeth â'r gwerthuswyr os ydynt wedi cytuno ar amcanion penodol;
- canolbwyntio ar anghenion personol a'r hyn fydd ei angen i sicrhau bod y disgyblion yn gwneud cynnydd da;
- deall blaenoriaethu'r ysgol a amlinellir yng nghynllun gwella'r ysgol; ac
- ystyried y dystiolaeth sydd ei hangen ac y dylid cadw adolygiad diweddar o ymarfer a chofnod datblygu.

Cyn y cyfarfod cynllunio, dylai gwerthuswyr:

- fod yn gyfarwydd â gweithdrefnau rheoli perfformiad statudol;
- bod yn gyfarwydd â pholisi rheoli perfformiad yr ysgol;
- bod yn gyfarwydd â disgrifiad swydd y pennaeth;
- myfyrio ar gynllun gwella'r ysgol ac unrhyw wybodaeth berthnasol am berfformiad disgyblion ac ystyried y blaenoriaethau sy'n berthnasol i waith yr athro; a
- bod yn ymwybodol o system datblygiad proffesiynol parhaus yn yr ysgol.

## Paratoi amcanion

Cyn neu ar ddechrau'r cylch gwerthuso, mae'n rhaid i'r holl werthuswyr a'r pennaeth gyfarfod i gynllunio a pharatoi ar gyfer y gwerthusiad a cheisio cytuno ar amcanion y pennaeth. Fel arfer, bydd y cyfarfod yn cael ei gyfuno â'r cyfarfod adolygu gwerthusiad blynyddol (gweler tudalen 12). Mae'n bwysig bod amser digonol yn cael ei neilltuo er mwyn i'r cyfarfod drafod pob elfen o'r gwerthusiad yn llawn ac ystyried blaenoriaethau eraill y pennaeth.

Argymhellir y dylid cyfuno'r cyfarfod hwn gydag unrhyw gyfarfod â'r awdurdod lleol i drafod cynllun gwella'r ysgol ac unrhyw faterion sy'n ymwneud â bandio'r ysgol. Bydd y drafodaeth hon yn cynnwys materion fel hunanfyfyrio, cynllunio i wella'r ysgol, gwerthuso darpariaeth, nodi tangyflawni, gwerthuso ansawdd addysgu a dysgu, hyrwyddo cymunedau dysgu proffesiynol, cefnogi ymchwil ymarferol i ymarfer effeithiol, hwyluso rhwydweithiau ymarfer proffesiynol, cynllunio'r cwricwlwm, asesu ar gyfer dysgu, datblygu sgiliau, dymchwel rhwystrau i ddysgu, datblygiad a lles staff a datblygu systemau rheoli perfformiad cadarn. Bydd y mwyafrif o'r drafodaeth hon, os nad yr holl drafodaeth, yn berthnasol wrth baratoi amcanion y pennaeth.

Gan y gallai hyn gynnwys trafodaeth eang ac amrywiol, efallai y bydd angen cynnal mwy nag un cyfarfod mewn rhai achosion. Er enghraifft, gallai cyfarfod cychwynnol gyda holl aelodau'r panel gwerthuso helpu i ddatblygu dull cyson.

Dylid rhannu'r holl ddata perthnasol gyda'r holl bartïon cyn y cyfarfod.

Bydd tystiolaeth yn cynnwys lefel bandio'r ysgol (lle bo'n briodol) a chymorth perthnasol a nodwyd er mwyn galluogi i'r blaenoriaethau ar gyfer gwella ddigwydd. Ynghyd â hyn, bydd ystyried ystod o ddata perfformiad arall yn rhoi cyfle i'r Llywodraethwyr a'r awdurdod lleol sicrhau bod datblygiad proffesiynol parhaus, HMS a Chymunedau Dysgu Proffesiynol yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau cenedlaethol canlynol – llythrennedd, rhifedd a thorri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad, yn ogystal â blaenoriaethau gwella ysgol a nodwyd drwy ddadansoddi data'r ysgol.

**Pennu amcanion**

Ni ellir cael rheolau cadarn a sefydlog ar nifer yr amcanion y gellir eu pennu, ond o brofiad byddai 3 yn ddigon fel arfer.

Nid yw pennu amcanion yn golygu eitemeiddio pob gweithgaredd neu dasg. Dylid dewis disgwyliadau allweddol a blaenoriaethau datblygiadol.

Er mwyn gallu gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth, argymhellir pennu amcanion sy'n:

- glir;
- cryno;
- mesuradwy;
- heriol; a
- perthnasol.

Dylai amcanion y pennaeth, os ydynt yn cael eu cyflawni, gyfrannu at wella cynnydd disgyblion yn yr ysgol; ac mae'n rhaid iddynt ystyried tystiolaeth berthnasol, gan gynnwys gwybodaeth am berfformiad yr ysgol.

Yn gyffredinol, mae'n rhaid i'r amcanion ymwneud â:

- rheoli ac arwain yr ysgol;
- disgrifiad swydd y pennaeth;
- unrhyw feini prawf cynnydd cyflog perthnasol;
- unrhyw amcanion tîm neu ysgol gyfan perthnasol a nodir yng Nghynllun Gwella'r Ysgol;
- safonau proffesiynol ar gyfer penaethiaid fel y'u nodir gan Weinidogion Cymru;
- unrhyw flaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gwella ysgolion a nodir gan Weinidogion Cymru.

Gallant hefyd ystyried dyheadau proffesiynol y pennaeth.

Yn y cyd-destun hwn, dylid ystyried y safonau proffesiynol yn eu cyfanrwydd fel sylfaen i'r trafodaethau er mwyn helpu penaethiaid i nodi meysydd cryf a meysydd i'w datblygu ymhellach, gan gadw mewn cof gyfnod cyfredol y pennaeth yn ei yrfa.

Bydd y gwerthuswyr yn cofnodi'r amcanion, a lle bo'n briodol, gallai fod yn ddefnyddiol eu rhestru yn nhrefn blaenoriaeth. Dylid trafod y rhain a chytuno arnynt gyda'r pennaeth, os yw hynny'n bosibl. Gan amlaf, bydd cytundeb ynglŷn â'r amcanion, ond os na ellir cytuno bydd yn rhaid i'r gwerthuswyr nodi'n ysgrifenedig yr amcanion y maent yn eu hystyried yn briodol. Bydd y pennaeth yn cael cyfle i ychwanegu sylwadau ysgrifenedig.

Yn unol â gofynion rheoleiddiol mewn mannau eraill, wrth bennu amcanion dylai gwerthuswyr sicrhau eu bod yn ystyried yr hyn y gellir ei ddisgwyl yn rhesymol gan y pennaeth o ran sicrhau cydbwysedd boddhaol rhwng yr amser sy'n ofynnol i gyflawni dyletswyddau proffesiynol a'r amser sy'n ofynnol i fynd i'r afael â buddion personol y tu allan i'r gwaith.

**Addysgu**

Dylai gwerthuswyr ystyried unrhyw amser y mae pennaeth yn ei dreulio yn addysgu. Os yw hyn yn gyfran sylweddol o rôl pennaeth, yna dylid cyfeirio'n benodol o fewn eu hamcanion. Bydd monitro gweithdrefnau ac ati ar gyfer yr amcan hwn fod yr un fath â'r rhai ar gyfer athrawon, gan gynnwys y gwaith arsylwi ar addysgu a gyflawnir gan berson sydd â Statws Athro Cymwysedig (SAC).

**Datblygiad proffesiynol**

Mae datblygiad proffesiynol yn elfen allweddol o'r broses o reoli perfformiad ac yn gymorth i bennaeth gynyddu ei wybodaeth a sgiliau. Os yw'n bosibl, dylid canolbwyntio ar ddatblygiad proffesiynol yn rheolaidd ac yn unol â system datblygiad proffesiynol parhaus yr ysgol. Dylai cyfleoedd datblygiad proffesiynol gefnogi amcanion cytûn, datblygu cryfderau a mynd i'r afael â meysydd ar gyfer datblygiad a thwf proffesiynol. Ar ôl pennu'r amcanion, dylai'r gwerthuswyr a'r pennaeth geisio cytuno ar y gefnogaeth y bydd ei hangen er mwyn i'r pennaeth gyflawni'r amcanion. Os na ellir cytuno, bydd yr awdurdod lleol yn pennu'r gefnogaeth sydd ei hangen. Os yw'n bosibl, dylid ystyried cyfleoedd i rannu ymarfer da yn eang, gan gynnwys y tu hwnt i'r ysgol.

Mae'r cynllun unigol a'r datganiad gwerthuso yn ddogfennau personol a chyfrinachol a dylid eu cadw mewn lle diogel. Mae'n rhaid i bawb sydd â mynediad i'r dogfennau ddilyn darpariaethau Deddf Diogelu Data 1998 bob adeg.

**Diwygio amcanion**

O dan amgylchiadau eithriadol, gall y panel gwerthuso ddiwygio amcanion y pennaeth ar unrhyw adeg yn ystod y cylch gwerthuso. Fel y gwnaed wrth bennu amcanion ar ddechrau'r cylch gwerthuso, dylai'r pennaeth a'r gwerthuswyr gytuno ar unrhyw ddiwygiadau gyda'i gilydd. Fodd bynnag, os nad ydynt yn gallu cytuno, mae'n rhaid i'r gwerthuswyr nodi diwygiadau y maent yn eu hystyried yn briodol yn ysgrifenedig. Bydd y pennaeth yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Mae'n rhaid diweddaru'r datganiad amcanion ar ôl gwneud unrhyw ddiwygiadau er mwyn nodi'r amcan a ddiwygiwyd, y dyddiad y gwnaed y diwygiad a'r rhesymau amdano.

## Gweithdrefnau monitro

Yn y cyfarfod cynllunio, yn ogystal â phennu amcanion, bydd y pennaeth yn trafod a chytuno ar weithdrefnau gyda'r gwerthuswyr ar gyfer monitro perfformiad yn erbyn yr amcanion. Byddant hefyd yn trafod unrhyw gefnogaeth sydd ei hangen a'r cofnod datblygu a'r adolygiad ymarfer cyfoes sy'n rhaid eu cofnodi.

Dylai gweithdrefnau monitro gynnwys dulliau amrywiol, gan gynnwys gwybodaeth o: adolygiad ymarfer a chofnod datblygu'r pennaeth; cynllun gwella'r ysgol; gwybodaeth am berfformiad yr ysgol; ac unrhyw ddata perthnasol, a fydd i gyd wedi'u paratoi at ddibenion eraill. Mae'n bwysig bod tystiolaeth briodol ddigonol yn cael ei chasglu er mwyn sicrhau bod penderfyniadau cywir yn cael eu gwneud.

Os na all y gwerthuswyr a'r pennaeth gytuno ar y gweithdrefnau, y gwerthuswyr fydd â'r gair terfynol a byddant yn pennu a chofnodi'r gweithdrefnau i'w defnyddio yn ysgrifenedig. Dylid rhoi cyfle i'r pennaeth ychwanegu sylwadau ysgrifenedig hefyd.

Bydd y pennaeth a'r gwerthuswyr yn parhau i adolygu cynnydd gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau bod yr adolygiad cynnydd yn weithredol a chydweithredol. Mae cynnal trafodaethau anffurfiol yn ystod y flwyddyn yn ffordd o adolygu cynnydd a sicrhau bod y pennaeth yn cael ei gefnogi yn ei ddatblygiad proffesiynol. Gall y trafodaethau adolygu perfformiad hyn ganolbwyntio ar y cynllun unigol ac ar unrhyw gamau cefnogol sydd eu hangen a gallant hefyd helpu i ddiweddaru'r adolygiad ymarfer a'r cofnod datblygu. Bydd cyfle hefyd i addasu amcanion pan fo amgylchiadau yn newid a/neu ddata mwy diweddar ar gael. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r gwerthuswyr dderbyn caniatâd y pennaeth cyn ceisio cael gwybodaeth - ysgrifenedig neu lafar - sy'n berthnasol i berfformiad y pennaeth gan bobl eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn y gweithdrefnau a gofnodir yn y cyfarfod cynllunio.

## Arsylwi ar addysgu

Os yw amcanion pennaeth yn cynnwys cyfeiriad at addysgu, yna bydd monitro gweithdrefnau ac ati ar gyfer yr amcan hwn yr un fath â'r rhai ar gyfer athrawon, gan gynnwys y gwaith arsylwi ar addysgu a gyflawnir gan berson sydd â Statws Athro Cymwysedig (SAC).

## Adolygu ymarfer a chofnod datblygu

Drwy'r cylch gwerthuso, mae'n rhaid i'r pennaeth gadw cofnod diweddar o:

- asesiad y pennaeth ei hun o'i berfformiad yn erbyn yr amcanion a gofnodir yn y datganiad o amcanion;
- manylion unrhyw weithgareddau datblygiad proffesiynol a gyflawnwyd neu gefnogaeth arall a ddarperir a sut mae hyn yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion;
- manylion unrhyw ffactorau sy'n effeithio ar berfformiad yn erbyn yr amcanion a gofnodwyd yn ôl y pennaeth.

## Yr adolygiad gwerthuso a'r datganiad gwerthuso

Mae'r adolygiad blynyddol o berfformiad yn gyfle ffurfiol i'r pennaeth a'r gwerthuswyr gydnabod cyflawniadau a thrafod meysydd i'w gwella a datblygiad proffesiynol yn ôl yr angen. Gellir cyfuno hyn â'r broses o bennu amcanion ar gyfer y cylch nesaf o reoli perfformiad ac unrhyw drafodaethau ehangach a gynhelir am gynllun gwella'r ysgol ac unrhyw wybodaeth berthnasol am berfformiad a band yr ysgol.

Mae'n bwysig bod digon o amser yn cael ei neilltuo yn y cyfarfod er mwyn trafod pob elfen o'r gwerthusiad yn llawn ac ystyried blaenoriaethau eraill y pennaeth.

### Hunan-fyfyrio

Cyn y cyfarfod adolygu, efallai y bydd y pennaeth am ystyried, ar ôl ymarfer barn broffesiynol, pa feysydd i'w trafod mewn perthynas â'r cylch cyfredol ac wrth baratoi ar gyfer y cylch nesaf.

Bydd adolygiad o berfformiad yn fwy gwerthfawr ac effeithiol os yw'r pennaeth wedi myfyrio ymlaen llaw ar waith y flwyddyn, ar y cryfderau a'r cyflawniadau ac ar feysydd i'w datblygu.

Dylai'r pennaeth ystyried perfformiad yn erbyn:

- asesiad y pennaeth ei hun o'i berfformiad yn erbyn yr amcanion a bennwyd ar ddechrau'r cylch;
- tystiolaeth o berfformiad o wahanol berspectif ar ddiwedd y cylch adolygu;
- manteision unrhyw ddatblygiad proffesiynol a gyflawnwyd a manylion unrhyw gyfleoedd datblygiad proffesiynol a fyddai'n fuddiol ym marn y pennaeth;
- unrhyw adolygiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn;
- unrhyw ffactorau a effeithiodd ar berfformiad yn erbyn yr amcanion a bennwyd;
- amcanion posibl ar gyfer y cylch newydd.

### Yr adolygiad perfformiad

Ar ddiwedd neu'n agos i ddiwedd y cylch gwerthuso, mae'n rhaid i'r pennaeth a'r gwerthuswyr gynnal adolygiad gwerthuso, er mwyn:

- asesu i ba raddau y mae'r pennaeth wedi cyflawni'r amcanion a gofnodir yn y datganiad amcanion, gan ystyried adolygiad ymarfer a chofnod datblygiad y pennaeth ac unrhyw dystiolaeth berthnasol a gesglir yn ystod y broses fonitro;
- pennu a yw'r perfformiad cyffredinol wedi bod yn llwyddiannus wrth gadarnhau bod y pennaeth yn parhau i gyrraedd y safonau proffesiynol ar gyfer penaethiaid a nodir gan Weinidogion Cymru;

- nodi’r angen am gefnogaeth, hyfforddiant neu ddatblygiad ychwanegol a ffyrdd o ddiwallu’r cyfryw anghenion gan ystyried adolygiad ymarfer a chofnod datblygiad y pennaeth.

Dylai’r adolygiad rheoli perfformiad ystyried ystod eang o ddogfennau, gan gynnwys:

- Cynllun Ôl-Arolygiad Estyn;
- cynllun gwella’r ysgol;
- unrhyw wybodaeth berthnasol am berfformiad yr ysgol;
- lle bo’n berthnasol, gwybodaeth a ddefnyddiwyd i bennu band yr ysgol;
- unrhyw ddeunyddiau perthnasol eraill, gan gynnwys y rhai sy’n deillio o adolygiadau awdurdod lleol.

a dylai hefyd ystyried:

- adolygu, trafod a chadarnhau tasgau, amcanion a safonau hanfodol y pennaeth;
- cydnabod cryfderau a chyflawniadau’r pennaeth ac ystyried ffactorau y tu hwnt i’w rheolaeth;
- cadarnhau’r camau gweithredu y cytunwyd arnynt mewn adolygiadau anffurfiol yn ystod y flwyddyn;
- nodi meysydd i’w datblygu a sut bydd y rhain yn cael eu cyflawni;
- cydnabod anghenion datblygiad proffesiynol;
- os yw’n cael ei gyfuno â’r cyfarfod cynllunio, cytuno ar amcanion clir a chwblhau cynllun unigol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Y gwerthuswyr fydd yn penderfynu pryd y bydd yr adolygiad gwerthuso yn cael ei gynnal, ond bydd yn rhaid rhoi o leiaf 10 diwrnod ysgol o rybudd (ysgrifenedig) i’r pennaeth o’r dyddiad hwnnw. O leiaf bum niwrnod ysgol cyn yr adolygiad gwerthuso, mae’n rhaid i’r pennaeth gyflwyno’r adolygiad ymarfer a’r cofnod datblygu i’r gwerthuswyr ac mae’n rhaid ystyried y rhain yn yr adolygiad.

Mae’n rhaid i benaethiaid gyrraedd y Safon Arweinyddiaeth fel rhan o’r trefniadau asesu ar gyfer y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) a pharhau i’w cyrraedd tra bont yn benaethiaid.

Dylai’r gwerthuswyr ddefnyddio’r fframwaith y mae’r Safonau Arweinyddiaeth yn eu darparu fel sylfaen ar gyfer gwneud penderfyniadau proffesiynol am effeithiolrwydd cyffredinol perfformiad pennaeth o ran dangos eu bod yn parhau i gyrraedd y safonau. Dylai’r gwerthuswyr hefyd gadw mewn cof gyfnod cyfredol y pennaeth yn ei yrfa.

Gallai fod yn ddefnyddiol i werthuswyr amlygu’r prif bwyntiau a godwyd yn ystod yr adolygiad a thrafod gyda’r pennaeth yr hyn y byddant yn ei gynnwys yn y datganiad gwerthuso ysgrifenedig.

**Y datganiad gwerthuso**

O fewn 10 diwrnod ysgol i bob adolygiad gwerthuso, rhaid i'r gwerthuswyr baratoi datganiad ysgrifenedig i'r pennaeth yn cofnodi'r prif bwyntiau a wnaed gan y gwerthuswyr a'r pennaeth yn yr adolygiad a'r casgliadau y daethpwyd iddynt.

Dylid cofnodi mewn atodiad i'r datganiad (a fydd yn rhan o'r datganiad) yr anghenion hyfforddiant a datblygu a ffyrdd o ddiwallu'r cyfryw anghenion a nodwyd yn yr adolygiad.

Mae profiad yn awgrymu y dylai'r gwerthuswyr hefyd geisio cytuno ar eiriad y datganiad terfynol gyda'r pennaeth yn ystod y cyfnod 10 diwrnod hwn.

O fewn 10 diwrnod ysgol i dderbyn copi o'r datganiad gwerthuso terfynol, gall y pennaeth ychwanegu sylwadau ysgrifenedig a bydd y rhain yn rhan o'r datganiad.

Mae'r cynllun unigol a'r datganiad gwerthuso yn ddogfennau personol a chyfrinachol a dylid eu cadw mewn lle diogel. Mae'n rhaid i bawb sydd â mynediad i'r dogfennau ddilyn darpariaethau Deddf Diogelu Data 1998 bob adeg.

# Apelau

Os na ellir datrys materion gyda'r panel gwerthuso, gall y pennaeth gofnodi ei anfodlonrwydd â'r gwerthusiad ar y datganiad gwerthuso. Fodd bynnag, mae gan y pennaeth gyfle hefyd i apelio yn erbyn y datganiad gwerthuso os yw'r pennaeth yn anfodlon ag elfennau o'r gwerthusiad, a bydd panel apêl yn cael ei benodi i gynnal adolygiad o'r gwerthusiad.

Mae'n rhaid apelio yn erbyn y datganiad gwerthuso o fewn 10 diwrnod ysgol i dderbyn y datganiad ac mae'n rhaid ei gyflwyno'n ysgrifenedig i'r corff llywodraethu.

Yna, bydd panel apêl yn cael ei benodi i gynnal adolygiad apêl. Bydd 4 aelod ar y panel a byddant yn cael eu penodi fel a ganlyn:

- cadeirydd y corff llywodraethu – oni bai bod cadeirydd y corff llywodraethu wedi cymryd rhan yn y gwerthusiad sy'n destun apêl, yna bydd y corff llywodraethu yn penodi llywodraethwr nad yw wedi cymryd rhan yn y gwerthusiad;
- un llywodraethwr arall, oni bai bod yr apêl yn ymwneud â phennaeth ysgol sydd o gymeriad crefyddol, yna bydd yr Awdurdod Esgobaethol yn penodi un aelod;
- dau aelod a benodir gan yr awdurdod lleol.

Ni all unrhyw aelod o'r panel apêl:

- fod yn athro neu'n aelod arall o staff yr ysgol;
- cymryd rhan yn y gwerthusiad sy'n destun yr apêl.

Dylai'r corff llywodraethu ddarparu copi o'r datganiad gwerthuso a'r datganiad amcanion i'r panel apêl o fewn 5 diwrnod ysgol i dderbyn yr hysbysiad o apêl.

Cynhelir yr adolygiad apêl o fewn 10 diwrnod ysgol i'r panel apêl dderbyn y datganiad gwerthuso.

Wrth gynnal adolygiad apêl, mae'n rhaid i'r panel apêl ystyried unrhyw sylwadau a wneir gan y pennaeth.

Ar ôl rhoi ystyriaeth briodol, gall y panel apêl:

- benderfynu bod y gwerthusiad wedi'i gynnal yn foddhaol (a gall wneud sylwadau);
- diwygio'r datganiad gwerthuso os yw'r holl werthuswyr yn cytuno;
- gorchymyn cynnal gwerthusiad newydd.

Os gorchmynnir gwerthusiad newydd, mae'n rhaid disodli'r holl werthuswyr ac mae'n rhaid i'r panel apêl benderfynu pa weithdrefnau gwerthuso sy'n rhaid eu cynnal eilwaith.

Mae’n rhaid cwblhau’r holl weithdrefnau gwerthuso sydd angen eu cynnal eilwaith o fewn 15 diwrnod ysgol.

Ni all y panel apêl:

- benderfynu bod amcanion newydd yn cael eu cytuno neu eu pennu;
- penderfynu bod yr amcanion y cytunir arnynt neu a bennwyd yn cael eu diwygio.

## Darparu datganiadau gwerthuso, eu defnyddio a'u cadw

Mae'n rhaid i'r gwerthuswyr roi copi o'r datganiad gwerthuso i'r:

- pennaeth;
- cadeirydd y corff llywodraethu;
- y prif swyddog addysg.

Ac ar gais i:

- unrhyw lywodraethwyr sy'n gyfrifol am gynghori ynghylch dyrchafu, disgyblu neu ddiswyddo'r pennaeth neu ynghylch arfer unrhyw ddisgresiwn mewn perthynas â thâl neu am wneud penderfyniadau mewn perthynas â hynny;
- yn achos pennaeth ysgol nad oes ganddi gyllideb ddirprwyedig (o fewn ystyr Pennod IV o Ran II Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998) unrhyw swyddog neu gynghorydd a ddynodir yn benodol gan y Prif Swyddog Addysg i fod yn gyfrifol am gynghori ynghylch arfer unrhyw ddisgresiwn mewn perthynas â thâl neu am wneud penderfyniadau mewn perthynas â hynny;

Mae'n rhaid i gadeirydd y corff llywodraethu ddarparu copi o'r datganiad gwerthuso ar gais i:

- unrhyw swyddog neu gynghorydd a ddynodir yn benodol gan y prif swyddog addysg i fod yn gyfrifol am gynghori ynghylch perfformiad penaethiaid yn unol â rheoliad 6 Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006 neu am wneud penderfyniadau mewn perthynas â hynny;
- unrhyw swyddog apêl o fewn pum diwrnod ysgol i'r corff llywodraethu dderbyn hysbysiad o apêl.

Mae'n rhaid i gadeirydd y corff llywodraethu ddarparu copi o ddatganiad o amcanion y pennaeth i Estyn ar gais.

Os penodir gwerthuswr newydd ar ôl dechrau cylch gwerthuso, mae'n rhaid i gadeirydd y corff llywodraethu ddarparu copi o unrhyw ddatganiad o amcanion cyfredol i'r gwerthuswr hwnnw.

Mae'n rhaid i gadeirydd y corff llywodraethu ddarparu copi o'r atodiad i'r datganiad gwerthuso i'r person neu bobl sy'n gyfrifol am gynllunio'r hyfforddiant a datblygiad yn yr ysgol.

Mae'n rhaid i bennaeth gadw copi o ddatganiad gwerthuso am o leiaf dair blynedd ar ôl gorffen y datganiad gwerthuso nesaf.

Mae'n rhaid i gorff llywodraethu gadw copi o ddatganiad gwerthuso'r pennaeth am o leiaf dair blynedd ar ôl gorffen y datganiad gwerthuso nesaf.

Gall cyrff llywodraethu ysgol (gan gynnwys pwyllgorau cyrff llywodraethu) Prif Swyddogion Addysg neu unrhyw swyddogion neu gynghorwyr a ddynodir yn benodol i wneud penderfyniadau, ac i gynghori'r bobl hynny sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau, am ddyrchafu, diswyddo neu ddisgyblu penaethiaid neu wrth ddefnyddio unrhyw ddisgresiwn mewn perthynas â thâl, ystyried gwybodaeth berthnasol o ddatganiadau gwerthuso.

## Materion perthnasol eraill

### Rheoli tangyflawni

Nid yw'r gwerthusiad rheoli perfformiad yn rhan o unrhyw weithdrefnau disgyblu neu ddiswyddo. Fodd bynnag, bydd proses effeithiol o reoli llinell, gyda disgwyliadau clir a chefnogaeth briodol yn gymorth mawr i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion mewn perfformiad.

Mae gweithdrefnau i fynd i'r afael â thangyflawni yn amodol ar reoliadau ar wahân. Nid yw'r cyfarfod adolygu a'r datganiad gwerthuso yn rhan o weithdrefnau ffurfiol ar gyfer disgyblu, cymhwysedd neu allu, ond mae unrhyw wybodaeth berthnasol o ddatganiadau gwerthuso yn gallu cael ei hystyried gan y rhai sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ar berfformiad, cyflog, dyrchafu, diswyddo neu faterion disgyblu sy'n digwydd yn sgil gweithdrefnau eraill.

Os gwneir penderfyniad i ddilyn gweithdrefn cymhwysedd neu allu ffurfiol, bydd y weithdrefn honno yn disodli trefniadau rheoli perfformiad. Gellir gohirio'r broses rheoli perfformiad ar unrhyw adeg yn ystod y cylch os gwneir penderfyniad o'r fath.

### Cyflog a pherfformiad

Mae'r cyfrifoldeb am reoli perfformiad penaethiaid wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru. Nid yw'r cyfrifoldeb am gyflog penaethiaid wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru a'r Adran Addysg sy'n parhau i fod yn gyfrifol am benderfyniadau sy'n ymwneud â chyflogau yng Nghymru a Lloegr.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi diwygio'r rheoliadau rheoli perfformiad er mwyn effeithio ar gyflog penaethiaid unrhyw ffordd neu'r llall. Mae'r system rheoli perfformiad yn bennaf ar gyfer darparu gweithdrefn glir ar gyfer asesu perfformiad penaethiaid mewn perthynas â'r amcanion y cytunwyd arnynt; a dylent helpu penaethiaid i wella'i heffeithiolrwydd a sicrhau bod anghenion datblygu proffesiynol yn cael eu nodi a bod camau'n cael eu cymryd i'w diwallu yn gyson ac yn rheolaidd.

Mae'r polisi ar gyfer yr holl faterion cyflog yn cael ei lunio drwy ddeddfwriaeth gyflog gan yr Adran Addysg. Nodir y gofynion ar gyfer cyflogau penaethiaid yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol. Mae angen i gyrff perthnasol ddilyn y gofynion hyn ac unrhyw ganllawiau dilynol gan yr Adran Addysg mewn unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â chyflog, gan gynnwys dilyniant cyflog.